

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2023.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: R. Alexander, P. Hallett, R. Hendicott, L. Tinsley a G. Watkins (Aelodau Annibynnol), Cyngorwyr R.M. Birch, J.E. Charles a C.P. Franks.

76 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

77 PENODI CADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – PENODI R. Hendicott yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn Ddinesig.

78 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – PENODI L. Tinsley yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn Ddinesig.

79 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2023 fel cofnod cywir.

80 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

81 CEISIADAU AM GANIATÂD (SW/PGCD) –

Roedd Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 yn caniatáu i Aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau i siarad, ac os oedd hi'n briodol, i bleidleisio ar faterion na fyddent o bosib, oherwydd buddiant sy'n rhagfarnu, yn gallu siarad na phleidleisio yn eu cylch, nac aros yn yr ystafell ar eu cyfer. Yn ystod y drafodaeth, wrth gyfeirio at gais y Cyngorwyr Payne a'r cyfeiriad at gwyn flaenorol gan Aelod arall, dywedodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gwyn, a'i bod yn debygol bod y mater yn cyfeirio at sylw a wnaed yn hytrach na chwyn ffurfiol.

PENDERFYNWYD - BOD gollyngiadau fel y nodir yn yr atodlen isod yn cael eu caniatáu hyd at ddyddiad yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf:

Aelod sy'n Gofyn am Ollyngiad	Paragraff(au) Rheoliadau'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 - y Caniateir Gollyngiadau oddi tanynt ac y gwnaed cais amdanynt oddi tanynt	Penderfyniad
Y Cynghorydd G. John	(ch) a (dd)	Siarad a phleidleisio yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Tref Llanilltud Fawr pan fydd materion yn ymwneud â Lleng Brydeinig Frenhinol Llanilltud Fawr yn cael eu hystyried.
Cynghorydd L. Green	(ch), (d) ac (dd)	I siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Cymuned Llan-faes yn unig pan drafodir materion sy'n ymwneud â chae'r cymydog mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'i ddiweddariadau/ymgyng horiadau.
Cynghorydd H.M. Payne	(c), (ch), (dd) ac (e)	I siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg yn unig pan drafodir materion yn ymwneud â thai a digartrefedd mewn perthynas â chyllid ac eiddo o ystyried rôl Cynghorwyr ar gyfer Llanmau.

Y rheswm dros y penderfyniadau

Cydymffurfio â'r rheoliadau a'r rhwymedigaethau ar gyfer rhoi caniatâd i siarad a phleidleisio.

82 SYLWADAU GAN AELODAU ANNIBYNNOL O GYFARFODYDD PWYLLGORAU CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SW/PGCD) –

Un o rolau'r Pwyllgor Safonau oedd hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gyngorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwys a RhiantLywodraethwyr y Cyngor.

Roedd adroddiadau adborth ynghylch arsylwadau a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol Cynghorau Tref a Chymuned yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Monitro, a diweddiadau cyffredinol ar lafar am yr adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n rheolaidd gan yr Aelodau Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau. Roedd y Swyddog Monitro ac/neu'r Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn ymdrin ag unrhyw arsylwadau lle'r oedd angen trafodaeth benodol â Phrif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg neu Gadeirydd Pwyllgor a Chlerc / Cadeirydd Cyngor Tref a Chymuned. Roedd adroddiad trosolwg a gwersi a ddysgwyd ar gyfer yr holl ymweliadau a gynhaliwyd wedi cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mawrth 2022.

Roedd rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd y Cynghorau Tref a Chymuned wedi cael ei hanfon ymlaen at Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau, fel y gellid cynnal ymweliadau arsylwi pellach ar gyfer 2022/23. Mewn perthynas â chyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg, gan fod Uwch Swyddogion a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor roedd y Swyddog Monitro wedi gofyn i swyddogion roi gwybod iddi am unrhyw faterion.

Gwnaeth Mrs. Hallett sylw ar ddau ymweliad lle bu'n arsylwi, ac mai'r cyntaf oedd ymweliad â Chyngor Cymuned Penllyn ar 3 Ebrill, 2023 (wyneb yn wyneb). Dywedodd wrth y Pwyllgor Safonau mai dyma un o'r cyfarfodydd gorau iddi ei arsylwi erioed. Roedd Aelodau yn y cyfarfod wedi dangos parch a chwarteisi, ac roedd y cyfarfod wedi cael ei gadeirio'n eithriadol o dda.

Yr ail gyfarfod y bu'n ei arsylwi oedd Cyngor Cymuned Sain Dunwyd ar 5 Ebrill, 2023 Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell, ond roedd hi'n anodd gweld pwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod, gan fod y cardiau enw yn rhy bell i ffwrdd i'w gweld ar gamera. Yn ystod y drafodaeth nid oedd hi bob amser yn glir beth oedd canlyniadau'r trafodaethau, ac anaml iawn yr oedd unrhyw un yn cynnig neu'n eilio argymhellion. Roedd rhywfaint o ddryswch hefyd ynghylch buddiannau personol a buddiannau a oedd yn rhagfarnu ac, ym marn Mrs Hallett, diffyg dealltwriaeth. Roedd hi'n ymddangos hefyd nad oedd y clerc yn glir wrth roi cyngor. Argymhellodd Mrs. Hallett y dylid rhoi hyfforddiant pellach i'r Aelodau ar faterion o'r fath, ac ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, y dylid arsylwi un o gyfarfodydd pellach y Cyngor Cymuned.

Cyfeiriodd Mr. Watkins at ei ymweliad â Chyngor Cymuned Saint-y-brid ar 17 Mai, 2023. Roedd y cyfarfod yn gyfeillgar ac wedi'i gynnal yn dda, ond ni chafwyd unrhyw gyfeiriad at ddatganiadau buddiant ar yr agenda, nac unrhyw sôn am ddatganiadau buddiant yn y cofnodion blaenorol. Er bod y Cadeirydd wedi datgan buddiant nid oedd yn glir beth oedd y datganiad. Nododd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddarach ar yr agenda fod y materion hynny wedi'u trafod yn ddiweddar yn y cyfarfod diwethaf rhwng y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Chlercod y Cynghorau Cymuned a gynhaliwyd ar 20 Ebrill, 2023. Fodd bynnag, roedd hi'n ymddangos fel pe bai diffyg dealltwriaeth o hyd ynghylch datgan buddiannau.

Cyfeiriodd Mr. Alexander ei ymweliad arsylwi â Chyngor Cymuned Llandŵ ar 1 Mehefin, 2023, i sylw'r Pwyllgor, gan ddweud bod y cyfarfod hwnnw wedi'i gadeirio'n fanwl. Roedd y cyfarfod wedi cael ei gynnal o bell/drwy drefniant hybrid, ond nid oedd modd adnabod y Clerc nac ychwaith y pump o bobl a oedd hefyd yn bresennol o bell. Nid oedd unrhyw gardiau enw, ond dywedodd ei fod wedi derbyn y papurau ymhell ymlaen llaw. Cynigiwyd ac eillwyd penderfyniadau'n briodol, ac roedd y cyfarfod yn gyfarfod pwrpasol â ffocws. Cyfeiriodd at fater yr oedd wedi'i gyfeirio i sylw'r Gwasanaethau Democrataidd nad oedd yn ymwneud yn benodol â'r cyfarfod ei hun, ac roedd y Gwasanaethau Democrataidd yn ymchwilio i'r mater hwnnw.

Adroddodd Mrs. Tinsley am ei hymweliad â Chyngor Cymuned Llan-gan ar 3 Mai, 2023. Roedd trafodaeth wedi'i chynnal ynghylch dychwelyd i gynnal cyfarfodydd "wyneb yn wyneb", ond ni nodwyd unrhyw awydd i ddychwelyd i gyfarfodydd "wyneb yn wyneb" . Nid oedd yr enwau ar y sgrin yn cyd-fynd â'r sawl a oedd yn siarad yn y cyfarfod. Roedd un Cynghorydd yn cael problemau gyda'r sain yn ystod y cyfarfod, ac roedd yn rhaid i'r Cadeirydd gamu i'r adwy ac ailadrodd yr hyn yr oedd wedi'i ddweud. Roedd y cyfarfod yn llawn tensiwn gyda dau Aelod yn cael trafodaeth danlyd ar draws yr ystafell. Yn ystod y cyfarfod, dywedwyd bod Gwasanaethau Democrataidd y Fro, yn dilyn cwyn, wedi gofyn am gael recordiad o'r cyfarfod blaenorol ynghyd â recordiad o gyfarfod y noson honno, ond ni chytunwyd i wneud hynny. Dywedodd y Swyddog Monitro / Pennaeth y gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wrth y Pwyllgor Safonau ei bod wedi gofyn i recordiadau o'r cyfarfodydd gael eu hanfon ymlaen ati ar ôl i rywun gysylltu â hi i fynegi pryder. Nid oedd recordiadau'r cyfarfodydd wedi dod i law hyd yma, ond roedd Clerc y Cyngor Cymuned wedi dweud wrthi nad oedd y cofnodion ond wedi'u gwneud er mwyn helpu i lunio'r cofnodion (er y byddai'n gofyn am gadarnhad ynghylch a oeddent ar gael). Gorffennodd Mrs. Tinsley drwy ddweud bod y Cadeirydd, a benodwyd yn y cyfarfod, wedi cadeirio'n dda ac ystyried yr amgylchiadau, ond argymhellodd y dylid cynnal ymweliad arsylwi pellach â'r Cyngor Cymuned cyn gynted ag sy'n bosibl.

Gan gyfeirio at ei ymweliad i arsylwi cyfarfod Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro ar 15 Mai, 2023, dywedodd Mr. Hendicott y bu'r profiad yn ddiddorol. Roedd wedi cael agenda'r Cyfarfod Blyneddol, ond heb gael agenda'r cyfarfod ar 15 Mai, felly bu'n anodd dilyn y cyfarfod. Roedd trefn yr ystafell yn ei gwneud hi'n anodd braidd iddo wybod pwy oedd yn y cyfarfod, ac roedd hi hefyd yn anodd iawn gweld pwy oedd yr Aelodau a phwy oedd aelodau'r cyhoedd. Roedd hi hefyd yn anodd clywed popeth oedd yn digwydd. Cyfarfod "wyneb yn wyneb" oedd hwn. Cynhaliwyd y cyfarfod mewn ystafell fawr, ac ym mhen arall yr ystafell roedd grŵp o bobl yn chwarae tenis bwrdd, a oedd yn ei gwneud hi'n anodd iawn clywed y cyfarfod. Nid oedd cardiau enw ar gael. Er y trafodwyd ac yr ymdriniwyd ag eitem, ee, "goryrru yn yr ardal leol", cafodd yr eitem honno ei chodi dro ar ôl tro yn ystod y cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 21:45, ac yn ei farn ef, roedd y cyfarfod yn llawer rhy hir. Gobeithiai y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal mewn modd mwy proffesiynol. Roedd yn cydnabod hefyd fod y Cadeirydd wedi cael ei phenodi i'w swydd ar y noson honno, heb wybod am hynny ymlaen llaw, ac felly heb baratoi rhyw lawer. Er hynny, gwerthfawrogi ei bod wedi cynnal y cyfarfod hyd eithaf ei gallu ac ystyried yr amgylchiadau.

Gan gydnabod mai un o'r argymhellion gerbron y Pwyllgor Safonau yn yr adroddiad oedd bod y rhan fwyaf o Gynghorau Tref a Chymuned a arsylwyd drwy gydol y flwyddyn wedi'u rheoli'n dda ac yn effeithiol, cytunai â'r argymhellion y dylid cynnal

cyfarfodydd o'r fath bob dwy flynedd. Er hynny, lle bo problemau wedi codi, neu bryderon a chwynion wedi dod i law fel y rhai y cyfeiriwyd atynt uchod, cytunai y dylid bod modd cynnal ymweliadau arsylwi pellach â rhai Cyngorau Tref a Chymuned lle'r oedd problemau wedi codi.

Dywedodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd hefyd wrth y Pwyllgor fod diweddariadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i Glercod yng nghyfarfodydd y Swyddog Monitro â'r Clercod, gan rannu a thynnu sylw at arfer da. Er ei bod hi'n bosibl na fyddai pob Clerc yn gallu bod yn bresennol yn ystod y dydd oherwydd ei oriau contract, byddent yn gallu gweld cofnodion y cyfarfodydd a recordiadau'r cyfarfodydd. Yn ychwanegol at hyn, awgrymodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd pe bai arfer gwael yn parhau i fod yn broblem, y gellid gwahodd y Clerc ac/neu'r Cadeirydd i'r Pwyllgor Safonau, neu y gellid trefnu cyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, fel opsiwn arall i gefnogi'r broses o hyn allan.

Wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac yn dilyn y drafodaeth yn y cyfarfod, fe wnaed hynny wedyn

PENDERFYNWYD –

- (1) Bod yr adroddiad a'r adborth a gafwyd mewn perthynas â'r ymweliadau arsylwi a gynhaliwyd gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau i gyfarfodydd y Cyngor Tref a Chymuned yn cael eu nodi.
- (2) Pan fydd Aelodau Annibynnol yn dweud bod arsylwadau cyfarfodydd y Cyngor Tref a Chymuned wedi cael eu rheoli'n effeithiol heb unrhyw faterion materol yn cael eu nodi, cynhelir arsylwadau o gyfarfodydd o'r fath bob dwy flynedd yn hytrach na phob blwyddyn.
- (3) Pan amlygir materion yn dilyn ymweliadau arsylwi â chyfarfodydd y Cyngor Tref a Chymuned gan Aelodau Annibynnol fel materion sydd angen sylw pellach neu ymweliadau pellach a / neu os oes ceisiadau'n cael eu gwneud gan y Swyddog Monitro/ Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod ymweliadau'n cael eu cynnal, trefnir y rhain yn ôl yr angen.
- (4) Lle mae arferion gwael wedi parhau, dylid rhoi ystyriaeth i gyfarfodydd gael eu trefnu ar gyfer y Cadeirydd a'r Clerc naill ai i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau neu gyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1&2) Ystyried yr arsylwi a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.
- (3) Cynnal briff gwylio gan ystyried rôl y Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.
- (4) Er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel.

83 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT Y PWYLLGOR SAFONAU (YNGHYD AG ADBORTH GAN ARWEINWYR GRWPIAU GWLEIDYDDOL AR GYDYMFFURFIO AG ADRAN 62 O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021) (SW/PGCD) –

O dan Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, lunio Adroddiad Blynyddol i'r Awdurdod ar y flwyddyn honno.

Roedd drafft o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr adroddiad i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Wrth ddiolch i'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr, awgrymodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor y dylid ystyried cynnwys yn y ddogfen gyfeiriad at agweddau fel yr isod i adlewyrchu barn Aelodau'r Pwyllgor Safonau:

- Y dylid cyfeirio at yr oedi yn gysylltiedig â derbyn ceisiadau am ollyngiad yn ystod y flwyddyn, ac argymhell y dylid hysbysu pawb y dylai ceisiadau ddod i law yn brydlon;
- Er y gwelwyd gwelliant yn dilyn ymweliadau arsylwi â Chynghorau Tref a Chymuned ym mwyafrif yr achosion, roedd rhai materion wedi cael eu codi gan Aelodau Annibynnol drwy gydol y flwyddyn, ac fel yr amlygwyd uchod, nodwyd bod angen / y byddai angen ymweliadau dilynol er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ran ymddygiad a threfniadau llywodraethu. Awgrymwyd felly, er gwybodaeth, y dylid ychwanegu ychwanegu at yr adroddiad nifer o'r themâu a oedd yn codi droeon yn sgil yr ymweliadau arsylwi a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.
- O ran y ddyletswydd i Arweinwyr Grwpiau o dan adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mewn perthynas â safonau ymddygiad, y dylid nodi yn yr adroddiad fod cyfarfodydd wedi'u trefnu ag Arweinwyr Grwpiau ac Aelodau Etholedig Annibynnol i'w hatgoffa ynghylch y ddyletswydd. Fodd bynnag, gan nad oedd un o'r Aelodau Annibynnol wedi ymateb, nid oedd cyfarfod wedi'i gynnal â'r Aelod hwnnw. Dywedodd y Cadeirydd ei fod o'r farn ei bod hi'n bwysig cofnodi hyn yn yr Adroddiad Blynyddol, er bod yr holl Arweinwyr Grŵp a'r Aelodau Annibynnol eraill wedi ymateb i'r cais a wnaed.

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD yr Adroddiad Blynyddol drafft sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo a'i anfon ymlaen i'r Cyngor Llawn.
- (2) BOD awdurdod wedi ei ddirprwyo yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i gynnwys y sylwadau ychwanegol a wnaed yn y cyfarfod er mwyn cwblhau'r Adroddiad Blynyddol cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.
- (3) BOD copi o'r drafft terfynol yn cael ei anfon at bob Aelod o'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Cydymffurfio â gofynion Adran 63 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- (2) Er mwyn rhoi sylwadau ychwanegol yn yr Adroddiad Blynyddol fel y trafodwyd yn y cyfarfod.
- (3) Er mwyn ceisio cymeradwyaeth derfynol gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn.

84 CYFARFODYDD SWYDDOG MONITRO GYDA CHLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED (SW/PGCD) –

Un o rolau'r Pwyllgor Safonau oedd hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr Eglwys a Rhiant-Lywodraethwyr y Cyngor.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses hon, cynhaliodd y Swyddog Monitro gyfarfodydd gyda Chlercod Cyngorau Tref a Chymuned i ddarparu cyfleoedd i drafod materion perthnasol i'r ddwy ochr, i roi sylw i egwyddorion safonau mewn bywyd cyhoeddus ac i ddarparu cyfleoedd rhwydweithio.

Darparwyd adroddiadau am gyfarfodydd y Clercod gyda'r Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn y cyfarfodydd a gynhaliwyd, a chynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 28 Ebrill, 2023.

Ar ôl ystyried yr adroddiad fe'i gwnaed wedyn

PENDERFYNWYD – BOD yr adroddiad mewn perthynas â chyfarfod y Swyddog Monitro gyda'r Clercod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2023 yn cael ei nodi.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried y trafodaethau yn y cyfarfod ar 28 Ebrill 2023.

85 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL MEWN PERTHYNAS AG AELODAU ETHOLEDIG 2022-2023 (SW/PGCD) –

Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor Safonau ynghylch canlyniad yr Adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar Aelodau Etholedig ar gyfer 2022-2023.

Pwrpas yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg yn gysylltiedig ag Aelodau Etholedig.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Safonau, ac yn hysbysu'r Aelodau fod cofnodion y Gwasanaethau Democrataidd ac AD yn dangos bod

yr holl hyfforddiant gorfodol a'r ffurflenni cais DBS wedi'u cwblhau. Gan gydnabod mai dehongliad y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd o'r archwiliad oedd yr adroddiad, cytunwyd y byddai copi o'r archwiliad ei hun yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr adroddiad a chanlyniad yr archwiliad mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth fewnol, llywodraethu a rheoli risg sydd ar waith o ran Aelodau Etholedig yn cael ei nodi.

(2) BOD copi o adroddiad yr Archwiliad Mewnol yn cael ei anfon at holl Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth a'i roi ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Ystyried pwrpas yr archwiliad, sef rhoi sicrwydd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau rheoli mewnol, llywodraethu a rheoli risg.

(2) Er gwybodaeth.

86 YMATEB I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (ADRODDIAD RICHARD PENN); A CHYSONI TROTHWYON ANRHEGION A LLETYGARWCH I GYD-FYND AG YMAGWEDD CYMRU GYFAN (SW/PGCD) -

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth Cymru y byddai adolygiad o Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru yn cael ei gomisiynu, a bod yr ymgynghorydd Richard Penn wedi'i gomisiynu i gynnal yr adolygiad.

Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor Safonau'n manylu ar yr ymateb a awgrymwyd i bapur ymgynghori diweddar Llywodraeth Cymru ar argymhellion adolygiad Richard Penn o'r Fframwaith Safonau Moesegol, ac roedd Atodiad 1 yr adroddiad yn cynnwys yr ymateb a awgrymwyd i'r ymgynghoriad er ystyriaeth ac/neu gymeradwyaeth y Pwyllgor.

Ar ôl ystyried yr ymateb yn Atodiad 1, yn gysylltiedig â Chwestiwn 5, er y cytunwyd y dylid cael pŵer penodol i Banel Dyfarnu Cymru wysio tystion i dribiwnlysoedd apêl, mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryder ynghylch trefniadau'r gwasanaeth a'r agweddau ymarferol pe na bai pobl yn ufuddhau i'r gwysion, a'r hyn y gallai'r Panel ei wneud mewn sefyllfaoedd o'r fath, ac argymhellwyd y dylid cynnwys y datganiad hwn yn yr ymateb. O ran yr ymateb i Gwestiwn 7, derbyniwyd mai'r rheol gyffredinol oedd bod gwrandawiadau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus. O ran Cwestiwn 9, er bod yr Aelodau'n cwestiynu manteision rhoi ymddiheuriad gan ei bod yn bosib na fyddai'r ymddiheuriad hwnnw'n cael ei roi gyda'r bwriadau cywir yn aml, derbyniwyd y dylid cadw'r ymateb fel yr oedd ar ôl trafodaeth bellach.

Wrth gyfeirio at Gwestiwn 10a awgrymodd y Swyddog Monitro welliant i'r ymateb ar ôl trafod y mater gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sef ychwanegu'r geiriau "hyd yn oed lle bo pryderon difrifol iawn ynghylch diogelu" at y frawddeg. Dylai'r frawddeg felly fod fel a ganlyn "Nid oes darpariaeth debyg o'r fath ar gael yn gysylltiedig

ag aelodau, hyd yn oed lle bo pryderon difrifol iawn ynghylch diogelu". Roedd y Pwyllgor o'r farn y dylid cynnwys paragraff ychwanegol i nodi, pe bai Cynghorydd wedi'i g/chyhuddo o drosedd mewn categori penodol, ac yn enwedig trosedd a allai arwain at ddedfryd o garchar, y byddai'n briodol ei (g)wahardd dros dro. Mewn perthynas â Chwestiwn 13, dywedodd yr holl Aelodau Annibynnol eu bod wedi gwneud cais i fod yn Aelodau ar ôl darllen hysbyseb ar gyfer y swydd mewn papur newydd lleol. Cytunwyd wedyn y dylid newid yr ymateb o le i Na, a dileu paragraff yr ymateb gan gynnwys brawddeg newydd, sef "Mae'n bwysig sicrhau bod darpar ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd yn cael eu denu i'r rôl a defnyddio pob cyfrwng, gan gynnwys papurau newydd, gwefannau neu rwydweithiau presennol".

Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn y dylai'r rheswm dros yr ymateb i Gwestiwn 16 fod yr un peth â'r ymateb i Gwestiwn 5 o beidio ufuddhau i wŷs.

O fewn yr adroddiad, a chan roi sylw i'r ymateb i Gwestiwn 21, nodwyd bod pob Swyddog Monitro yng Nghymru wedi ymrwmo i gysoni'r trothwy ar gyfer datgan rhoddion a lletygarwch ar y lefel o £25 a gynigiwyd, ac i gyflwyno'r newid hwnnw drwy eu Pwyllgorau Safonau. Gofynnwyd felly i'r Pwyllgor Safonau argymhell i Gabinet Cyngor Bro Morgannwg y dylid diwygio'r trothwy i £25 yn unol â'r dull hwn a chan ystyried paragraff 1.5 yr adroddiad.

Yr oedd wedi hynny

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr ymateb drafft yn Atodiad 1 i'r adroddiad mewn perthynas ag Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol (Adroddiad Richard Penn), gyda'r diwygiadau ychwanegol fel isod, yn cael ei gytuno:

Cwestiwn 5 – Pa lwybrau fyddai'n agored i Banel Dyfarnu Cymru pe na bai cydymffurfio â gwŷs yn digwydd a'r goblygiadau.

Cwestiwn 7 – Bod y geiriau canlynol yn cael eu hychwanegu at ddiwedd yr ymateb "... er y nodir mai'r rheol gyffredinol yw bod gwrandawriadau i'w cynnal yn gyhoeddus."

10a – Bod y geiriau "... hyd yn oed lle mae pryderon diogelu difrifol iawn" yn cael eu hychwanegu at ail frawddeg ail baragraff yr ymateb h.y. bod y frawddeg yn darllen fel a ganlyn "Nid oes darpariaeth debyg o'r fath yn bodoli mewn perthynas ag aelodau hyd yn oed lle mae pryderon diogelu difrifol iawn". Bod paragraff ychwanegol yn cael ei gynnwys ynghylch pan fyddai Cynghorydd yn cael eu cyhuddo o gategori penodedig o drosedd ac yn arbennig troseddau oedd yn cynnwys dedfryd o garchar, y byddai gwaharddiad dros dro yn briodol.

Cwestiwn 13 – Bod yr ymateb yn cael ei ddiwygio i Na a'r paragraff ymateb yn cael ei ddileu gyda brawddeg newydd yn cael ei gosod fel y ganlyn "Mae'n bwysig sicrhau bod ymgeiswyr posibl o ystod eang o gefndiroedd yn cael eu denu i'r rôl a bod pob sianel gan gynnwys papurau newydd, gwefannau neu rwydweithiau presennol yn cael eu defnyddio".

Cwestiwn 16 – Bod yr ymateb ychwanegol yn cael ei ychwanegu fel y cytunwyd ar gyfer Cwestiwn 5 uchod.

- (2) EI FOD yn cael ei argymhell i'r Cabinet bod trothwy Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer Rhoddion yn cael ei ddiwygio yn unol â pharagraff 1.5 yr adroddiad fel a ganlyn: Rhoddion, buddion materol neu fanteision – £25.00 neu gyfanswm o £100.00 dros flwyddyn o un ffynhonnell.
- (3) BOD awdurdod wedi ei ddirprwyo yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau, i wneud y diwygiadau i'r ymateb, fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau yn y cyfarfod.
- (4) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i Bwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag argymhellion Adroddiad Richard Penn.
- (2) I argymhell cymeradwyaeth yn unol â chytundeb Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan, Fforwm Pwyllgor Safonau Cymru Gyfan er mwyn cysoni ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru.
- (3) Ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod.
- (4) Ar gyfer craffu cyn y Cabinet a rhoi sylw i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymateb ar 23 Mehefin 2023.

87 CYLCH GORCHWYL DRAFFT AR GYFER PANEL Y PWYLLGOR SAFONAU (SW/PGCD) –

Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr, 2023 gofynnwyd i'r Pwyllgor Safonau ystyried a ddylid cynnal adolygiad o ystyried y sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr, 2022.

Yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr, 2023, penderfynodd y Pwyllgor Safonau:

- (1) Cymeradwyo Panel o Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried cynnal adolygiad gyda golwg ar baragraff 1.1 o'r adroddiad.
- (2) Cymeradwyo'r Panel i gynnwys tri Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau sef Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr. R. Hendicott, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mrs. L. Tinsley a Mr. R. Alexander.
- (3) Bod y Panel fel yr amlinellwyd ym Mhenderfyniadau (1) a (2) uchod, yn cael ei gynnwys dros yr wythnosau nesaf i ystyried y Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygiad o'r fath a bod y Cylch Gorchwyl yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau i'w gymeradwyo.

Roedd Mr. Watkins o'r farn fod paragraff 2 y Cylch Gorchwyl yn gosod targed uchelgeisiol i'r Panel, sef ystyried yr holl weithdrefnau a pholisïau a diwylliant ac arferion yng Nghyngor Bro Morgannwg. Erbyn meddwl, fodd bynnag, derbyniwyd y byddai'r dogfennau amrywiol, er enghraifft y Polisi Chwythu'r Chwiban, o gymorth gyda'r broses hon, ac wedi hynny

PENDERFYNWYD – BOD y Cylch Gorchwyl drafft sydd ynghlwm wrth Atodiad 1 yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

88 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SW/PGCD) –

Nododd yr adroddiad y byddai'r Swyddog Monitro yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod dan Ran II yr agenda mewn perthynas â gohebiaeth ddiweddar a materion sy'n codi yn unol â gweithdrefnau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn gyfrinachol eu natur.

PENDERFYNWYD – NODI cynnwys yr adroddiad, gan ystyried y byddai diweddariad ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

I hysbysu'r Aelodau o'r Pwyllgor.

89 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yn Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

90 GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SW/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

Fel yr amlinellwyd yn Rhan I o'r agenda, cytunwyd gan y Pwyllgor Safonau bod eitem sefydlog yn ymddangos ar agenda'r Pwyllgor er mwyn i'r Swyddog Monitro allu dweud wrth Aelodau'r Pwyllgor Safonau am ohebiaeth a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) ar unrhyw faterion sy'n codi, gyda'r eitemau'n aros yn gyfrinachol eu natur yn unol â gweithdrefn yr Ombwdsmon.

Felly, rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar ohebiaeth gyfrinachol ddiweddar gyda'r Ombwdsmon. Gan nad oedd unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r wybodaeth a roddwyd yn y cyfarfod,

PENDERFYNWYD – NODI'r wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog Monitro yn y cyfarfod.

Rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn gyfrinachol ar hyn o bryd.